Parallel.cymru

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

Cyfres Amdani: Cawl- Ymestynnwch eich Cymraeg gyda Jo Knell

‘Sŵn’

Tasgau grŵp Pennod Wyth

1. Arddull llenyddol y stori

Trafodwch mewn pâr neu grŵp:

(i) Yn y stori ‘Sŵn’ dych chi’n gallu adnabod enghreifftiau o ...?

- Cymhariaeth
- Rhestru digwyddiadau neu ddisgrifiadau
- Defnydd o frawddegau byr
- Gofyn cwestiynau rhethregol
- Idiomau
- Ansoddeiriau lluosog

(ii) Yn eich barn chi sut mae defnydd o’r techngeau hyn yn cyfrannau at naws y stori?

2. Trafodaeth grŵp

Mewn grŵp o 3 neu 4 trafodwch y gyfrol ‘Cawl’:

- Dych chi wedi’i mwynhau?
- Beth oedd eich hoff stori?
- Oedd arddull un awdur yn sefyll allan yn arbennig i chi?
- Fasech chi’n argymell y llyfr i bobl eraill?
- Hoffech chi ddarllen teitl arall yn y gyfres ‘Amdani’ nawr?

Parallel.cymru

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

Cyfres Amdani: Cawl- Ymestynnwch eich Cymraeg gyda Jo Knell

Tasgau i unigolion Pennod Wyth

1. Newid brawddegau

Newidiwch ystyr y brawddegau hyn trwy newid un gair yn unig:

a	Creu argraff ar ffrindiau a chlientiaid.
b	Cwsg anniddig gafodd o ar ei soffa foethus.
c	Neu'n waeth fyth, oedd ganddo wn?
ch	Eisteddodd ar lawr y stafell wely gan ddechrau igian crio.
d	'Tynna'r hwd 'na oddi ar dy ben.'
dd	'Dw i'n mynd i ffonio'r heddlu, 'ta.'

2. Adolygiad

Ysgrifennwch adolygiad o'r llyfr 'Cawl' ar gyfer darllenwyr newydd. Beth am anfon eich adolygiad at Parallel.cymru, Lingo Newydd neu'ch papur bro? Gallwch sôn am:

- Pa storïau fwynheuoch chi a pham?
- Oedd lefel yr iaith yn addas i chi?
- Oeddech chi'n gyfarwydd â rhai o'r awduron yn barod?
- Ydy'r llyfr wedi'ch sbarduno i ddarllen llyfrau eraill?
- Pa lyfrau eraill yn y gyfres 'Amdani' dych chi wedi'u mwynhau?